

Newidiadau mewn iechyd a meddygaeth

Mae meddygaeth wedi newid yn llwyr ers y Canol Oesoedd. Bryd hynny, roedd yr Eglwys yn dylanwadu'n drwm ar driniaeth. Roedd pobl yn ceisio gwella eu hunain drwy weddio, ac yn credu byddai cyffesu pechodau yn cael gwared o salwch.

Roedd doctoriaid yn dilyn damcaniaeth pedwar gwlybwr Hippocrates, er mwyn cadw trefn ar waed, fflem, bustl melyn a bustl du pobl.

O dro i dro, byddai iachawyr yn defnyddio gelenod i sugno'r "gwaed drwg".

Roedd amodau byw yn wael hefyd. Roedd tai'n hynod o agos at ei gilydd, heb lanweithdra, dŵr glân, na ffordd o gasglu gwastraff.

Dim rhyfedd felly fod miliynau o bobl wedi marw ar ôl i Bla Du 1348 ledu fel tân gwyllt.

Roedd gan bobl syniadau rhyfedd am beth achosodd y pla – fel Iddewon yn gwenwyno'r dŵr, neu ddaeargrynfeydd yn China.

Gwellodd pethau rhywfaint erbyn yr 16fed ganrif a'r 17eg ganrif.

Yn yr 1540au, dechreuodd Andreas Vesalius ddyrannu cyrff pobl a chyhoeddodd lyfr am yr anatomi dynol.

Tua'r un cyfnod, cyhoeddodd Ambroise Paré lyfr ar dechnegau llawdriniaethau a ddylanwadodd ar lawfeddygon ar hyd a lled Ewrop.

Genhedlaeth yn ddiweddarach, cyhoeddodd meddyg o'r enw William Harvey lyfr am sut mae'r galon yn pwmpio a chylchrediad y gwaed.

Y damcaniaethau hyn oedd sail datblygiadau'r dyfodol. Ond y gwir amdani oedd bod gwybodaeth am feddygaeth yn wan ac roedd iechyd y cyhoedd yn wael.

Y rheswm am hyn oedd bod y Chwyldro Diwydiannol yn y 18fed a'r 19eg ganrif wedi achosi i bobl symud i ddinasoedd gorlawn a budr. Lledodd heintiau yn gyflym o berson i berson, a bu farw un o bob saith o dwbercwlosis.

Yn yr 1790au, datblygodd y doctor Edward Jenner y brechiad cyntaf erioed, a hynny yn erbyn y frech wen. Erbyn 1852, roedd hi'n orfodol fod pawb yn cael y brechiad. O ganlyniad, 'dyw'r frech wen ddim yn bodoli heddiw.

Yn yr 1840au, yn dilyn epidemigau colera a theiffoid yn Llundain, astudiodd Edwin Chadwick sut roedd afiechydon yn lledu mewn dinasoedd diwydiannol. Diolch iddo e, gwellodd safon glanweithdra.

Bitesize

Ymysg datblygiadau hanfodol eraill y cyfnod oedd Louis Pasteur yn darganfod y cysylltiad rhwng germau a chlefydau, Joseph Lister yn mynnu defnyddio antiseptig i ddiheintio theatrau cyn pob llawdriniaeth, a James Simpson yn datblygu clorofform, yr anesthetig cyntaf, yn 1847.

Defnyddiodd y Frenhines Fictoria clorofform adeg geni ei phlant i ladd y boen.

Dechreuodd meddygaeth fodern godi stêm yn yr 20fed ganrif.

Darganfuwyd, cyn y rhyfel Byd Cyntaf, bod ymbelydredd yn lladd celloedd cancer. Gyda'r wybodaeth hyn, aeth Marie Curie ati i gychwyn y broses o drin cancer sy'n bodoli hyd heddiw.

A gydag Alexander Fleming wedi darganfod penisilin ar hap, ynghyd â masgynhyrchiad Florey a Chain ohono, newidiodd hyn driniaeth feddygol am byth.

Erbyn 1937, roedd penisilin ar gael ymhobman, ac roedd yn gwbl allweddol wrth drin milwyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Ac yna, wrth gwrs, sefydlwyd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn 1948, gan gynnig gofal iechyd yn rhad ac am ddim i bawb – y tlawd a'r cyfoethog.

Cyfrannodd technoleg at ddatblygiadau mewn trawsblannu organau. Trawsblannwyd yr aren gynta' yn 1952 a'r galon gynta' yn 1967. Roedd technegau sganio, fel pelydr X, uwchsain a delweddu cyseinnedd magnetig – MRI – yn golygu ein bod yn gallu gweld tu mewn i'r corff am y tro cynta'.

Heddiw, diolch i ddatblygiadau fel darganfod DNA a pheirianeg genedig, ry' ni'n gallu delio'n effeithiol gydag afiechydon a oedd ar un adeg yn anwelladwy.

Dros y blynyddoedd, mae crefydd, technoleg, diwydiannaeth a gwyddoniaeth wedi siapio meddygaeth i greu'r system gofal iechyd sydd gyda ni heddiw ... gwell na gelenod, unrhyw ddydd.